



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## **Ordinhad 6:**

### **Y Cyngor: Aelodau'r Senedd**

<b>Y Corff Cymeradwyo:</b>	Y Cyngor
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	24 Ebrill, 2020
<b>Perchennog y Polisi:</b>	Ysgrifennydd y Brifysgol
<b>Swyddog Polisi:</b>	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
<b>Statws y Polisi:</b>	Newydd
<b>Fersiwn:</b>	1.0
<b>Dyddiad adolygu:</b>	Ebrill 2023

**Ordinhad 6:**  
**Y Cyngor: Aelodau'r Senedd**

1. Yn unol ag Adran 9 y Siarter, bydd dau gynrychiolydd o'r Senedd ar y Cyngor, a chânt eu penodi gan y Senedd ar argymhelliad Pwyllgor Enwebiadau'r Senedd.
2. Ni fydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Gweithredu, fel y nodir yn Ordinhad 16, yn gymwys i'w enwebu/ei henwebu gan y Senedd.
3. Y cyfnod arferol yn y swydd ar gyfer pob cynrychiolydd o'r fath fydd pedair blynedd a byddant yn gymwys i'w hailbenodi fel arfer am un cyfnod arall hyd at bedair blynedd ac yna byddant yn anghymwys i'w haillethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio.
4. Llenwir lleoedd gwag achlysurol yn y gynrychiolaeth fel y byddant yn codi trwy i Bwyllgor Enwebiadau'r Senedd argymhell unigolyn i'r Senedd i wasanaethu am weddill cyfnod y swydd wag a gododd.